

# Addasiadau i Gefnogi Annibyniaeth

## Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol

Tachwedd 2019

Nod addasiadau i gartrefi pobl yw eu cefnogi i aros mor annibynnol ag sy'n bosib ac i gyflawni eu 'gwaith' dyddiol, megis edrych ar ôl eu hunain, symud o gwmpas eu cartrefi ac allan yn y gymuned er mwyn gwneud y pethau sydd o bwys iddynt.

Mae cynllun 'Hwyluso' Llywodraeth Cymru yn ffordd o roi gwybod i bobl am y gefnogaeth sydd ei angen arnynt p'un ai a ydynt yn byw yn eu cartref eu hunain neu'n rhentu'n breifat neu trwy'r cyngor neu gymdeithas dai.

Maent yn dosbarthu'r addasiadau fel rhai bach, megis gosod canllawiau gafael a chanllawiau grisiau; canolig megis lifftiau grisiau ac ystafelloedd ymolchi mynediad gwastad; a mwy gallai gynnwys rheoliadau cynllunio ac adeiladu er mwyn eu cyflawni.

Gellir cael rhai addasiadau bach, megis canllawiau gafael, yn uniongyrchol trwy gysylltu â'ch landlord drwy'r cynllun hwn (gwybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

<http://gov.wales/docs/desh/publications/170407-enable-key-facts-cy.pdf>

### **Aseiad**

Mae Therapyddion Galwedigaethol a Swyddogion Anabledd sydd wedi eu cyflogi gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint yn fedrus wrth ymgymryd ag aseuadau a gwneud argymhellion am y math o newidiadau a fyddai'n eich cefnogi chi, eich teulu neu ofalwyr i gymryd rhan mewn bywyd pob dydd.

Mewn rhai achosion, gall argymhellion fod ar gyfer canllawiau gafael syml sy'n rhoi tawelwch meddwl a hyder i bobl, a gallai fod yn rhywbeth mae pobl yn fodlon ei ariannu eu hunain ar ôl cael y cyngor a'r wybodaeth gywir.

Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, fel rhan o'r aseiad, trafodir agweddau eraill a allai arwain at gyflawni canlyniadau, gan gynnwys newidiadau posib i ffordd o fyw, defnyddio technegau ac/neu gyfarpar gwahanol neu pan fyddai angen gwaith sylweddol, ystyried y buddion o symud i rywle mwy addas.

### **Grantiau ar gael:**

Ar gyfer addasiadau ar raddfa fawr, mae Grant Cyfleusterau i'r Anabl sydd fel arfer ar gyfer y rhai hynny sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain neu'n rhentu yn y sector preifat.

Mae'n grant drwy brawf modd ar gyfer gwaith dros £1000 yn bennaf (Ffoniwch 01352 703434 am ragor o wybodaeth) ac mae angen argymhelliad gan Therapydd Galwedigaethol.

Mae Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl yn gallu bod hyd at £36,000 yn ddibynnol ar y cais sy'n cael ei wneud ac ar gyfer unrhyw gais dros y swm hwn, gellir gwneud cais am fenthyciad yn ôl disgrisiwn. Mewn achos plant, nid oes angen prawf modd ar gyfer Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl ond byddai angen bodloni'r meini prawf yn dilyn asesiad. Ni all gefnogi gwaith a wnaed eisoes gan y rhai sydd ag anabledd.

Mae'r rhai hynny sy'n byw mewn cymdeithasau tai yn gallu gwneud cais am grantiau, trwy eu cymdeithas dai (Grantiau Addasiadau Ffisegol) ac angen argymhelliad therapi galwedigaethol unwaith eto sydd weithiau'n effeithio taliadau rhent i gynnwys costau cynnal a chadw. Mae cyllideb wedi ei neilltuo ar gyfer ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn eiddo'r cyngor.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio, beth bynnag yw argymhellion y therapi galwedigaethol, penderfyniad y landlord yw gwneud yr addasiadau a byddant yn ystyried y ceisiadau yn unol â'r defnydd gorau o'u stoc dai ar gyfer yr holl drigolion.

### **Gwaith preifat:**

I'r rhai hynny sy'n dymuno gwneud gwaith preifat, cysylltwch â Gofal a Thrwsio, elusen ar gyfer yr henoed a phobl anabl (01352 758700), mae ganddynt ddewis o gontractwyr cymeradwy a'u tîm eu hunain sy'n gallu cynnig cefnogaeth.

Hyd yn oed yn yr amgylchiadau hyn, mae'n bosib cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol am ganllawiau ac asesiad er mwyn sicrhau bod camgymeriadau costus yn cael eu hosgoi.

### **Cynnal a chadw a gwasanaethu:**

Mae'n bwysig nodi bod rhywfaint o'r offer sy'n cael ei osod trwy'r grantiau hyn angen gwaith gwasanaethu a chynnal a chadw rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn. Os ydych yn byw yn eich eiddo eich hunan, mae'n debygol y byddwch yn cymryd cyfrifoldeb dros hyn unwaith i'r warant ddod i ben, felly trafodwch hyn cyn gwneud y gwaith er mwyn gallu rhoi cynllun yn ei le.

O fewn llety'r cyngor neu gymdeithas dai, bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'r systemau sydd yn eu lle. Cysylltwch â'ch tîm tai os oes gennych chi unrhyw gwestiwn.

## **Am gymorth neu gyngor os ydych yn ystyried addasiad:**

Un Pwynt Mynediad

 03000 858 858

Gwasanaethau Cymdeithasol, Preswylfa,  
Ffordd Hendy, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1PZ.

E-bost: [spoa@flintshire.gov.uk](mailto:spoa@flintshire.gov.uk)

## **Gwybodaeth Llywodraeth Cymru ar-lein:**

### **Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl**

<http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/grants-and-funding/disabled-facilities-grant/?lang=cy>

### **Grant Addasiadau Ffisegol**

<http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/grants-and-funding/physical-adaptations/?lang=cy>

### **Benthyciadau Gwelliannau i'r Cartref** (heb fod yn benodol i anabledd)

<http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/grants-and-funding/home-improvement-loans/?lang=cy>

### **Hwyluso**

<http://gov.wales/docs/desh/publications/170407-enable-key-facts-cy.pdf>

## Cwestiynau a chwynion

Os nad yw pethau'n mynd yn iawn

Rydym yn ymwybodol er gwaethaf ein hymdrechion gorau efallai y bydd achlysuron pan fydd gan ddefnyddiwr gwasanaeth gŵyn.

Gellir gwneud unrhyw gŵyn ynghylch y gwasanaethau drwy eich Therapydd Galwedigaethol neu Swyddog Anableddau neu Reolwr Tîm.

Os ydych yn dymuno gwneud cwyn ffurfiol, dylech gysylltu â:

Y Swyddog Cwynion  
Gwasanaethau Cymdeithasol  
Tŷ Dewi Sant  
St David's Park  
Ewloe  
Sir y Fflint CH5 3XT

Rhif Ffôn: 01352 702623  
E-bost: [ian.maclaren@flintshire.gov.uk](mailto:ian.maclaren@flintshire.gov.uk)

Mae taflen "Eich Hawl i Ganmol a Chwyno" sy'n egluro sut i gyflwyno eich sylwadau a sut y byddant yn cael eu trin ar gael o'r un cyfeiriad neu ar ein gwefan yn [www.flintshire.gov.uk/careinfo](http://www.flintshire.gov.uk/careinfo)

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Saesneg.

This document is available in English. Please contact 03000 858 858 for an English version.

cyf: A23